# Y Côd

ar gyfer Erlynwyr y Goron

# Tabl cynnwys

Cyflwyniad....2

Egwyddorion Cyffredinol....3

Y Penderfyniad i Erlyn neu Beidio.... 5

Y Prawf Côd Llawn ....7

Y Prawf Trothwy....12

Dewis y Cyhuddiadau.... 14

Achosion sy'n cael eu datrys y tu allan i'r Llys....15

Lleoliad y Llys....16

Derbyn Pleon Euog ....17

Ailystyried Penderfyniad i Erlyn....18

# Cyflwyniad

1.1. Cyhoeddir Côd i Erlynwyr y Goron (y Côd) gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus (DPP) o dan adran 10 Deddf Erlyn Troseddau 1985. Dyma wythfed argraffiad y Côd ac mae'n disodli'r holl fersiynau cynharach.

1.2. Y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus yw pennaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS), sef y prif wasanaeth erlyniadau cyhoeddus yng Nghymru a Lloegr. Mae'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus yn gweithredu'n annibynnol, o dan oruchwyliaeth y Twrnai Cyffredinol sy'n atebol i'r Senedd am waith y CPS.

1.3. Mae'r Côd yn rhoi arweiniad i erlynwyr ar yr egwyddorion cyffredinol i'w defnyddio wrth wneud penderfyniadau am erlyniadau. Mae'r Côd wedi'i gyhoeddi'n bennaf i erlynwyr y CPS ond mae erlynwyr eraill yn dilyn y Côd, naill ai drwy gonfensiwn neu oherwydd bod yn rhaid iddynt wneud hynny yn ôl y gyfraith.

1.4. Yn y Côd hwn:

- defnyddir y term “un a ddrwgdybir” i ddisgrifio person sydd o dan ystyriaeth fel gwrthrych achos troseddol ffurfiol;
- defnyddir y term “diffynnydd” i ddisgrifio person sydd wedi cael ei gyhuddo neu ei alw i'r llys;
- defnyddir y term “troseddwr” i ddisgrifio person sydd wedi cyfaddef ei fod yn euog o gyflawni trosedd, neu berson a gafwyd yn euog mewn llys barn.
- defnyddir y term “dioddefwr" i ddisgrifio person sydd wedi dioddef trosedd, neu'r achwynydd mewn achos a ystyrir neu a erlynir gan y CPS.

## Egwyddorion Cyffredinol

2.1. Mae annibyniaeth yr erlynydd yn ganolog i'r system cyfiawnder troseddol mewn cymdeithas ddemocrataidd. Mae erlynwyr yn annibynnol ar bobl neu asiantaethau nad yw'n rhan o broses gwneud penderfyniadau'r erlyniad. Mae erlynwyr y CPS hefyd yn annibynnol ar yr heddlu ac ymchwilwyr eraill. Mae'n rhaid i erlynwyr fod yn rhydd i wneud eu dyletswyddau proffesiynol heb ymyriad gwleidyddol ac ni ddylent gael eu heffeithio gan ddylanwad neu bwysau amhriodol neu ormodol gan unrhyw ffynhonnell.

2.2. Nid gwaith y CPS yw penderfynu a yw unigolyn yn euog o drosedd neu beidio, ond gwneud asesiadau o ran a yw'n briodol i gyflwyno cyhuddiadau i'w hystyried gan y llys barn. Nid yw asesiad y CPS o unrhyw achos yn golygu o reidrwydd bod dyfarniad, neu awgrym, o unrhyw euogrwydd neu ymddygiad troseddol. Dim ond llys sy'n gallu canfod euogrwydd..

2.3. Yn yr un modd, nid yw penderfyniad i beidio â dod â chyhuddiadau troseddol o reidrwydd yn golygu nad yw'r unigolyn wedi dioddef trosedd. Nid rôl y CPS yw gwneud penderfyniadau o'r fath.

2.4. Mae'r penderfyniad i erlyn neu i argymell penderfynu ar achos y tu allan i'r llys yn gam difrifol sy'n effeithio ar bobl a ddrwgdybir, dioddefwyr, tystion a'r cyhoedd yn gyffredinol, ac mae'n rhaid bod yn hynod o ofalus wrth wneud y penderfyniad hwn.

2.5. Dyletswydd yr erlynwyr yw sicrhau bod y person cywir yn cael ei erlyn am y drosedd gywir ac am ddod â throseddwyr o flaen eu gwell lle bynnag y bo modd. Mae penderfyniadau mewn achosion gwaith sy'n cael eu gwneud yn deg, yn ddiduedd a gyda gonestrwydd yn helpu i sicrhau cyfiawnder i ddioddefwyr, tystion, pobl a ddrwgdybir, diffynyddion a'r cyhoedd. Mae'n rhaid i erlynwyr sicrhau bod y gyfraith yn cael ei gweithredu'n gywir, bod tystiolaeth berthnasol yn cael ei chyflwyno i'r llys a bod pobl yn cydymffurfio â goblygiadau datgelu.

2.6. Er bod rhaid ystyried pob achos yn ôl ei ffeithiau a'i deilyngdod ei hun, mae egwyddorion cyffredinol sy'n berthnasol i bob achos.

2.7. Wrth wneud penderfyniadau, mae'n rhaid i erlynwyr fod yn deg a gwrthrychol. Ni ddylent adael i unrhyw farn bersonol am darddiad ethnig neu genedlaethol, rhyw, anabledd, oedran, crefydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth rywiol y bobl a ddrwgdybir, y diffynyddion, y dioddefwyr neu unrhyw dystion, ddylanwadu ar eu penderfyniadau. Ni ddylent gael eu cymell chwaith gan ystyriaethau gwleidyddol. Mae'n rhaid i erlynwyr weithredu bob amser er budd cyfiawnder ac nid er mwyn sicrhau euogfarn yn unig.

2.8. Mae'n rhaid i erlynwyr fod yn gwbl deg yn y ffordd y maent yn ymdrin â phob achos. Mae dyletswydd arnynt i amddiffyn hawliau'r rhai a ddrwgdybir a'r diffynyddion, gan ddarparu'r gwasanaeth gorau posib i ddioddefwyr.

2.9. Mae'r CPS yn awdurdod cyhoeddus at ddibenion deddfwriaeth cydraddoldeb gyfredol a pherthnasol. Mae erlynwyr yn rhwym wrth y dyletswyddau a nodir yn y ddeddfwriaeth hon.

2.10. Mae'n rhaid i erlynwyr ddefnyddio egwyddorion y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, yn unol â Deddf Hawliau Dynol 1998, ym mhob cam o'r achos. Mae'n rhaid iddynt gydymffurfio gydag unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan y Twrnai Cyffredinol a chyda pholisïau a chanllawiau'r CPS a gyhoeddir ar ran y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus, oni bai y penderfynir bod amgylchiadau eithriadol. Mae canllawiau'r CPS yn cynnwys ffactorau pellach sydd o fudd cyhoeddus ac sy'n

ymwneud â thystiolaeth ar gyfer troseddwyr a throseddau penodol, ac maent ar gael i’r cyhoedd eu gweld ar wefan y CPS. Mae'n rhaid i erlynwyr hefyd gydymffurfio gyda Rheolau Trefniadaeth Droseddol a Chyfarwyddiadau Ymarfer Troseddol, ac ystyried Canllawiau'r Cyngor Dedfrydu a'r goblygiadau sy'n deillio o gonfensiynau rhyngwladol.

2.11. Mae'r CPS yn erlyn ar ran rhai adrannau eraill y Llywodraeth. Mewn achosion o'r fath, dylai erlynwyr ystyried unrhyw bolisïau gorfodi perthnasol sydd gan yr adrannau hynny.

2.12. Gallai rhai troseddau gael eu herlyn naill ai gan y CPS neu gan erlynwyr eraill yng Nghymru a Lloegr. Wrth wneud penderfyniadau yn yr achosion hyn, gallai erlynwyr, lle maent yn credu bod hynny'n briodol, ystyried unrhyw god neu bolisi erlyn neu orfodi sy'n berthnasol gan yr erlynydd arall.

2.13. Lle mae'r gyfraith yn wahanol yng Nghymru a Lloegr, mae'n rhaid i erlynwyr ddefnyddio'r Côd ac ystyried unrhyw bolisi, canllawiau neu safon gyhuddo sy'n berthnasol.

# Y Penderfyniad i Erlyn neu Beidio

3.1. Mewn achosion mwy cymhleth neu ddifrifol, mae erlynwyr yn penderfynu a ddylid cyhuddo rhywun o drosedd ac, os felly, pa fath o drosedd ddylai fod. Gallai erlynwyr hefyd gynghori ynghylch, neu awdurdodi, penderfyniadau i ddatrys achosion y tu allan i'r llys fel opsiwn arall yn lle erlyn. Maent yn gwneud eu penderfyniadau yn unol â'r Côd hwn, y Canllawiau ar Gyhuddo gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus ac unrhyw ganllawiau neu bolisi cyfreithiol perthnasol. Mae'r heddlu'n defnyddio'r un egwyddorion wrth benderfynu a ddylent gychwyn achosion troseddol yn erbyn person yn yr achosion hynny y maent yn gyfrifol amdanynt.

3.2. Mae'r heddlu ac ymchwilwyr eraill yn gyfrifol am wneud ymholiadau i mewn i unrhyw drosedd honedig ac am benderfynu sut i ddefnyddio eu hadnoddau. Mae hyn yn cynnwys penderfyniadau i gychwyn neu i barhau ymchwiliad a beth fydd cwmpas yr ymchwiliad. Dylai erlynwyr gynghori'r heddlu ac ymchwilwyr eraill am linellau ymholi rhesymol posibl, gofynion tystiolaethol, gweithdrefnau cyn cyhuddo, rheoli datgeliadau a'r strategaeth ymchwilio gyffredinol. Gallai hyn gynnwys penderfyniadau i fireinio neu i gulhau cwmpas yr ymddygiad troseddol a nifer y bobl a ddrwgdybir sydd o dan ymchwiliad. Mae cyngor o'r fath yn helpu'r heddlu ac ymchwilwyr eraill i gwblhau'r ymchwiliad o fewn cyfnod rhesymol o amser ac i adeiladu'r achos mwyaf effeithiol i'r erlyniad.

3.3. Ni all erlynwyr gyfarwyddo ymchwiliadau'r heddlu neu ymchwilwyr eraill. Serch hynny, mae'n rhaid i erlynwyr ystyried effaith unrhyw fethiant i ddilyn llinell ymholiad rhesymol a gynghorwyd neu i gydymffurfio gyda chais am wybodaeth, wrth benderfynu a ddylid gohirio gweithredu'r Prawf Côd Llawn neu a oes modd ateb gofynion y prawf o gwbl.

3.4. Dylai erlynwyr ganfod a, lle bo'n bosibl, ceisio gwella gwendidau tystiolaethol, ond, yn amodol ar y Prawf Trothwy (gweler adran 5), dylent roi stop yn sydyn ar achosion nad ydynt yn cwrdd â cham tystiolaethol y Prawf Côd Llawn (gweler adran 4) ac na ellir eu cryfhau drwy ymchwiliad pellach, neu lle mae'n amlwg nad yw erlyn er lles y cyhoedd (gweler adran 4). Er bod yr erlynwyr yn rhoi ystyriaeth yn bennaf i'r dystiolaeth a'r wybodaeth a gyflenwir gan yr heddlu ac ymchwilwyr eraill, gallai'r rhai a ddrwgdybir neu'r rheiny sy'n gweithredu ar eu rhan hefyd gyflwyno tystiolaeth neu wybodaeth i'r erlynydd, cyn neu ar ôl y cyhuddo, er mwyn helpu i lywio penderfyniad yr erlynydd. Mewn achosion priodol, gallai'r erlynydd ofyn i'r un a ddrwgdybir neu'r rheiny sy'n gweithredu ar ei ran i wneud hyn.

3.5. Ni ddylai erlynwyr gychwyn neu barhau i erlyn lle maent o'r farn ei bod hi'n hynod debygol y bydd llys yn penderfynu bod erlyniad yn cam-drin ei broses, ac yn oedi'r achos.

3.6. Mae erlynwyr yn adolygu pob achos a dderbynnir gan yr heddlu neu gan ymchwilwyr eraill. Mae adolygu yn broses barhaus ac mae'n rhaid i erlynwyr ystyried unrhyw newid mewn amgylchiadau sy'n digwydd wrth i'r achos fynd yn ei flaen. Mae hyn yn cynnwys beth a ddaw'n hysbys am achos y diffynnydd, unrhyw linellau ymholi rhesymol a ddylai gael eu dilyn, a chael unrhyw ddeunydd heb gael ei ddefnyddio a allai danseilio achos yr erlyniad neu helpu achos y diffynnydd, i'r graddau y dylai'r cyhuddiadau gael eu newid neu derfynu neu na ddylai'r erlyniad fynd yn ei flaen. Os terfynir achos, dylid bod yn ofalus wrth ddewis y math o derfyniad, oherwydd gallai hyn effeithio ar sefyllfa'r dioddefwr o dan y cynllun Hawl y Dioddefwr i Adolygiad. Lle bynnag y bo modd, dylai erlynwyr ymgynghori â'r ymchwilydd wrth ystyried newid y cyhuddiadau neu derfynu'r achos. Mae erlynwyr ac ymchwilwyr yn cydweithio'n agos, ond y CPS sy'n gyfrifol yn y pen draw am benderfynu a ddylai achos fynd rhagddo neu beidio.

3.7. Mae'r Senedd wedi penderfynu na ddylid ond cymryd nifer gyfyngedig o droseddau i'r llys gyda chytundeb y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus. Gelwir y rhain yn achosion cydsyniad. Mewn achosion o'r fath, mae'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus, neu erlynydd sy'n gweithredu ar ei ran, yn defnyddio'r Côd wrth benderfynu a ddylid rhoi caniatâd i erlyniad ai peidio.

3.8. Mae troseddau penodol hefyd na ellir eu dwyn gerbron y llys heb ganiatâd y Twrnai Cyffredinol. Mae'n rhaid i erlynwyr ddilyn y canllawiau cyfredol wrth gyfeirio achosion o'r fath i'r Twrnai Cyffredinol. Mae rhai troseddau'n gofyn am ganiatâd yr Ysgrifennydd Gwladol cyn cychwyn erlyn. Mae'n rhaid i erlynwyr gael caniatâd o'r fath cyn cyhuddo a gweithredu unrhyw ganllawiau perthnasol yn yr achosion hyn. Yn ogystal, bydd y Twrnai Cyffredinol yn derbyn holl fanylion achosion penodol fel rhan o'i waith o oruchwylio’r CPS a'i atebolrwydd i'r Senedd am ei weithredoedd.

# Y Prawf Côd Llawn

4.1. Ni chaiff erlynwyr gychwyn neu barhau i erlyn nes bydd yr achos wedi pasio dau gam y Prawf Côd Llawn. Yr eithriad yw pan fydd modd defnyddio'r Prawf Trothwy (gweler adran 5).

4.2. Mae gan y Prawf Côd Llawn ddau gam: (i) y cam tystiolaethol; ac yn dilyn hynny (ii) cam lles y cyhoedd.

4.3. Dylai'r Prawf Côd Llawn gael ei weithredu:

a) pan fydd pob llinell resymol o ymholi wedi'i dilyn; neu

b) cyn i'r ymchwiliad gael ei gwblhau, os bydd yr erlynydd yn fodlon bod unrhyw dystiolaeth neu ddeunydd pellach yn annhebygol o gael effaith ar weithredu'r Prawf Côd Llawn, boed hynny o blaid neu yn erbyn erlyn.

4.4. Yn y mwyafrif o achosion, dylai erlynwyr ond ystyried a yw erlyniad er lles y cyhoedd ar ôl ystyried a oes digon o dystiolaeth i erlyn. Ond, bydd achosion yn codi lle mae'n amlwg, cyn adolygu'r holl dystiolaeth, nad oes angen erlyn er lles y cyhoedd. Yn y sefyllfaoedd hyn, gallai'r erlynwyr benderfynu na ddylai'r achos fynd rhagddo.

4.5. Dylai erlynwyr ond gwneud penderfyniad o'r fath pan fyddant yn fodlon eu bod yn gwybod yn fras pa mor ddifrifol yw'r drosedd a'u bod yn gallu gwneud asesiad llawn ar sail gwybodaeth ynghylch lles y cyhoedd. Os nad oes gan erlynwyr ddigon o wybodaeth i wneud penderfyniad o'r fath, dylai'r ymchwiliad barhau a dylid gwneud penderfyniad yn ddiweddarach yn unol â'r Prawf Côd Llawn a esbonnir yn yr adran hon.

## Y Cam Tystiolaethol

4.6. Mae'n rhaid i erlynwyr deimlo'n fodlon bod digon o dystiolaeth i roi unrhyw obaith realistig o gael euogfarn yn erbyn pob un a ddrwgdybir ar bob cyhuddiad*. Mae'n rhaid iddynt ystyried beth fydd achos posib y diffynnydd, a sut mae'n debygol o gael effaith ar y gobaith o gael euogfarn. Ni ddylai achos nad yw'n pasio'r cam tystiolaethol fynd yn ei flaen, ni waeth pa mor ddifrifol neu sensitif yw'r achos.

4.7. Mae canfod bod gobaith realistig o gael euogfarn wedi ei seilio ar asesiad gwrthrychol yr erlynydd o'r dystiolaeth, gan gynnwys effaith unrhyw amddiffyniad ac unrhyw wybodaeth arall y mae'r un a ddrwgdybir wedi ei chyflwyno neu y gallai ef neu hi ddibynnu arni. Mae'n golygu bod rheithgor neu fainc o ynadon neu farnwr sy'n gwrando achos yn unigol, ac sy'n wrthrychol, diduedd a rhesymol, ac wedi eu cyfarwyddo'n gywir ac yn gweithredu yn unol â'r gyfraith, yn fwy tebygol na pheidio o gael y diffynnydd yn euog o'r cyhuddiad a honnir. Mae hwn yn brawf gwahanol i'r un y mae'n rhaid i'r llysoedd barn eu hunain ei weithredu. Ni chaiff llys ond rhoi euogfarn os yw'n sicr bod y diffynnydd yn euog.

4.8. Wrth benderfynu a oes digon o dystiolaeth i erlyn, dylai erlynwyr ofyn y canlynol iddynt hwy eu hunain:

---

*At ddibenion Côd Erlynwyr y Goron, mae "euogfarn" yn cynnwys canfyddiad bod "yr unigolyn wedi cyflawni'r weithred neu'r anweithred" dan amgylchiadau lle oedd yr unigolyn yn debygol o gael ei ddyfarnu'n euog ar sail gwallgofrwydd.

### A allai'r dystiolaeth gael ei defnyddio yn y llys?

Dylai erlynwyr ystyried a oes unrhyw amheuaeth ynglŷn â pha mor dderbyniol yw tystiolaeth benodol. Wrth wneud hynny, dylai erlynwyr asesu:

- pa mor debygol y bydd y llys yn teimlo bod y dystiolaeth yn annerbyniol; a
- pwysigrwydd y dystiolaeth honno mewn perthynas â'r dystiolaeth gyfan.

### A yw'r dystiolaeth yn ddibynadwy?

Dylai erlynwyr ystyried a oes unrhyw resymau i gwestiynu pa mor ddibynadwy yw'r dystiolaeth, gan gynnwys ei chywirdeb neu ei gonestrwydd.

### A yw'r dystiolaeth yn gredadwy?

Dylai erlynwyr ystyried a oes unrhyw resymau i amau pa mor gredadwy yw'r dystiolaeth.

### A oes unrhyw ddeunydd arall a allai gael effaith ar ba mor ddigonol yw'r dystiolaeth?

Mae'n rhaid i'r erlynwyr ystyried ar y cam hwn a thrwy gydol yr achos a oes unrhyw ddeunydd a allai effeithio ar yr asesiad o ba mor ddigonol yw'r dystiolaeth, yn cynnwys deunydd wedi/heb ei archwilio sydd ym meddiant yr heddlu, a deunydd a allai gael ei sicrhau drwy linellau ymholi rhesymol pellach.

## Cam Lles y Cyhoedd

4.9. Ymhob achos lle mae digon o dystiolaeth i gyfiawnhau erlyn neu i gynnig datrys yr achos y tu allan i'r llys, mae'n rhaid i erlynwyr fynd ymlaen i ystyried a oes angen erlyn er lles y cyhoedd.

4.10. Os yw'r cam tystiolaethol wedi'i gyflawni, nid yw hyn o reidrwydd yn golygu y bydd erlyniad yn digwydd yn awtomatig. Bydd erlyniad yn digwydd fel arfer oni bai bod yr erlynydd yn fodlon bod ffactorau lles y cyhoedd sy'n mynd yn erbyn erlyniad yn drech na'r ffactorau sydd o blaid erlyniad. Mewn rhai achosion, efallai bydd yr erlynydd yn fodlon bod modd sicrhau lles y cyhoedd yn briodol drwy gynnig i'r troseddwr y caiff y mater ei ddatrys y tu allan i'r llys yn hytrach na bwrw ymlaen i erlyn.

4.11. Wrth benderfynu beth yw lles y cyhoedd, dylai erlynwyr ystyried pob un o'r cwestiynau isod ym mharagraffau 4.14 a) i g) er mwyn pennu a phenderfynu beth yw'r ffactorau lles y cyhoedd perthnasol sydd o blaid ac yn erbyn erlyniad. Dylai'r ffactorau hyn, ynghyd ag unrhyw ffactorau sy'n ymwneud â lles y cyhoedd a nodir mewn canllawiau neu bolisi perthnasol a gyhoeddir gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus, alluogi erlynwyr i wneud asesiad cyffredinol o les y cyhoedd.

4.12. Mae'r nodyn eglurhaol o dan bob cwestiwn ym mharagraffau 4.14 a) i g) yn rhoi arweiniad i erlynwyr wrth iddynt ymdrin â phob cwestiwn penodol a phenderfynu a yw'n canfod ffactorau lles y cyhoedd sydd o blaid neu yn erbyn erlyniad. Nid yw'n rhestr gyflawn o gwestiynau, ac mae'n bosib na fydd yr holl gwestiynau yn berthnasol ymhob achos. Bydd y pwyslais a roddir i bob un o'r cwestiynau, a'r ffactorau a ganfyddir, hefyd yn amrywio yn unol â ffeithiau a theilyngdod pob achos.

4.13. Mae'n bosibl y gallai un ffactor lles y cyhoedd ar ei ben ei hun fod yn fwy na nifer o ffactorau eraill sy'n gogwyddo i'r cyfeiriad arall. Er gallai fod ffactorau lles y cyhoedd sydd yn erbyn erlyniad mewn achos arbennig, dylai erlynwyr ystyried a ddylai erlyniad fynd rhagddo p'run bynnag ac y dylid rhoi'r ffactorau hynny gerbron y llys i'w hystyried pan fo'r ddedfryd yn cael ei phasio.

4.14. Dylai erlynwyr ystyried pob un o'r cwestiynau canlynol:

### a) Pa mor ddifrifol yw'r drosedd a gyflawnwyd?

- Po fwyaf difrifol yw'r drosedd, y mwyaf tebygol y bydd angen erlyn.
- Wrth asesu difrifoldeb trosedd, dylai erlynwyr hefyd ystyried beiusrwydd yr un a ddrwgdybir a'r niwed a achoswyd, gan ofyn iddynt eu hunain y cwestiynau yn b) a c).

### b) Beth yw lefel beiusrwydd yr un a ddrwgdybir?

- Po fwyaf yw lefel beiusrwydd yr un a ddrwgdybir, y mwyaf tebygol y bydd angen erlyn.
- Mae'n debyg y bydd beiusrwydd yn cael ei benderfynu gan y canlynol:

  i. beth yw rhan yr un a ddrwgdybir;

  ii. i ba raddau yr oedd y troseddu wedi'i fwriadu a/neu wedi ei gynllunio;

  iii. i ba raddau y mae'r un a ddrwgdybir wedi elwa o'r ymddygiad troseddol;

  iv. a oes gan yr un a ddrwgdybir euogfarnau troseddol blaenorol a/neu achosion a ddatryswyd y tu allan i'r llys, ac a wnaeth yr unigolyn hwnnw droseddu o gwbl pan oedd ar fechnïaeth neu pan oedd o dan orchymyn llys;

  v. a oedd, neu a yw’r troseddu'n debygol o barhau, digwydd eto neu fynd yn waeth;

  vi. oedran ac aeddfedrwydd yr un a ddrwgdybir (gweler paragraff d isod).

- Mae'r un a ddrwgdybir yn debygol o fod â lefel lawer is o feiusrwydd os cafodd ei gymell, ei annog neu ei ecsbloetio, yn enwedig os yw wedi dioddef trosedd sy'n gysylltiedig â'r troseddu a wnaeth.
- Dylai'r erlynwyr hefyd ystyried a yw'r un a ddrwgdybir, neu a oedd yr un a ddrwgdybir adeg y drosedd, yn dioddef o unrhyw salwch meddwl neu gorfforol arwyddocaol, oherwydd, mewn rhai amgylchiadau, gallai hyn olygu ei bod hi'n llai tebygol y bydd angen erlyn. Fodd bynnag, bydd angen i erlynwyr ystyried hefyd pa mor ddifrifol oedd y drosedd, a yw'r un a ddrwgdybir yn debygol o aildroseddu, a'r angen i ddiogelu'r cyhoedd neu'r rheiny sy'n darparu gofal i bobl o'r fath.

### c) Beth yw amgylchiadau'r dioddefwr a'r niwed a achoswyd i'r dioddefwr?

- Mae amgylchiadau'r dioddefwr yn hynod berthnasol. Po fwyaf bregus yw sefyllfa'r dioddefwyr, neu po fwyaf bregus y mae’r dioddefwr yn ymddangos, y mwyaf tebygol y bydd angen erlyn.

- Mae hyn yn cynnwys sefyllfaoedd lle mae ymddiriedaeth neu awdurdod yn bodoli rhwng yr un a ddrwgdybir a'r dioddefwr.
- Mae erlyniad yn fwy tebygol hefyd os yw'r drosedd wedi'i gwneud yn erbyn dioddefwr a oedd yn gwasanaethu'r cyhoedd ar y pryd.
- Mae'n fwy tebygol y bydd angen erlyn os cafodd y drosedd ei chymell gan unrhyw fath o ragfarn yn erbyn tarddiad cenedlaethol neu darddiad ethnig tybiedig neu wirioneddol y dioddefwr, neu ryw, anabledd, oedran, crefydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth rywiol y dioddefwr; neu os yw'r un a ddrwgdybir wedi targedu neu ecsbloetio'r dioddefwr, neu wedi dangos gelyniaeth tuag at y dioddefwr ar sail unrhyw rai o'r nodweddion hynny.
- Mae angen i erlynwyr hefyd ystyried a yw erlyniad yn debygol o amharu er gwaeth ar iechyd corfforol neu feddyliol y dioddefwr, gan gofio bob amser am ddifrifoldeb y drosedd, a oes mesurau arbennig ar gael a'r posibilrwydd o erlyn heb i'r dioddefwr orfod cymryd rhan.
- Dylai erlynwyr ystyried y sylwadau a fynegir gan y dioddefwr am yr effaith y mae'r drosedd wedi'i chael. Mewn achosion priodol, gallai hyn hefyd gynnwys barn teulu'r dioddefwr.
- Serch hynny, nid yw'r CPS yn gweithredu ar ran dioddefwyr neu eu teuluoedd yn yr un ffordd ag y mae cyfreithwyr yn gweithredu ar ran eu cleientiaid, ac mae'n rhaid i erlynwyr ffurfio barn gyffredinol am les y cyhoedd.

### d) Beth oedd oedran ac aeddfedrwydd yr un a ddrwgdybir adeg y drosedd?

- Mae'r system cyfiawnder troseddol yn trin plant a phobl ifainc yn wahanol i oedolion, ac mae'n rhaid rhoi pwyslais mawr ar oedran yr un a ddrwgdybir os ydynt yn blentyn neu'n berson ifanc iau na 18 oed.
- Rhaid ystyried buddiannau gorau a lles y plentyn neu'r person ifanc, gan gynnwys a yw'r erlyniad yn debygol o gael effaith wael ar eu gobeithion yn y dyfodol sy'n anghymesur â difrifoldeb y troseddu.
- Mae'n rhaid i erlynwyr ystyried prif nod y system cyfiawnder ieuenctid, sef i atal troseddu gan blant a phobl ifanc. Mae'n rhaid i erlynwyr hefyd ystyried y goblygiadau sy'n Côdi o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 1989.
- Dylai'r erlynwyr ystyried aeddfedrwydd yr un a ddrwgdybir, yn ogystal â'u hoedran cronolegol, gan y bydd oedolion ifanc yn parhau i aeddfedu i mewn i'w hugeiniau canol.
- Fel man cychwyn, po fwyaf ifanc yw'r un a ddrwgdybir, y lleiaf tebygol y bydd angen erlyn.
- Fodd bynnag, gallai fod amgylchiadau sy'n golygu y byddai erlyn er lles y cyhoedd, er gwaethaf y ffaith fod yr un a ddrwgdybir yn iau na 18 oed neu heb aeddfedu'n llawn. Mae'r rhain yn cynnwys sefyllfaoedd lle:

  i. mae'r drosedd a wnaed yn ddifrifol;

ii. mae cofnod hanesyddol yr un a ddrwgdybir yn awgrymu nad oes unrhyw ddewis arall heblaw erlyn; a

iii. mae'r ffaith na chafwyd cyfaddefiad yn golygu nad oes modd datrys achosion y tu allan i'r llys mewn modd a fyddai wedi gallu ymdrin â'r ymddygiad troseddol.

### e) Beth yw'r effaith ar y gymuned?

- Po fwyaf yw effaith y troseddu ar y gymuned, y mwyaf tebygol y bydd angen erlyn.
- Mae trosedd sy’n digwydd yn aml mewn cymuned yn gallu achosi niwed penodol i'r gymuned honno, gan wneud difrifoldeb y troseddu yn fwy.
- Nid yw cymuned wedi'i chyfyngu i gymunedau sydd wedi eu diffinio yn ôl eu lleoliad, a gallent ymwneud â grŵp o bobl sy'n rhannu nodweddion, profiadau neu gefndiroedd penodol, yn cynnwys grŵp galwedigaethol.
- Gellir cael tystiolaeth o effaith ar y gymuned drwy ddefnyddio Datganiad Effaith ar y Gymuned.

### f) A yw erlyn yn ymateb cymesur?

- Wrth ystyried a yw erlyn yn gymesur â'r canlyniad tebygol, gallai'r canlynol fod yn berthnasol:

  i. Y gost i'r CPS a'r system cyfiawnder troseddol ehangach, yn enwedig lle gellid ystyried bod hyn yn ormod wrth ei bwysoli yn erbyn unrhyw gosb debygol. Ni ddylai erlynwyr benderfynu ynglŷn â lles y cyhoedd ar sail y ffactor hwn yn unig. Mae'n hanfodol bod ystyriaeth yn cael ei rhoi hefyd i ffactorau lles y cyhoedd a ganfyddir wrth ystyried y cwestiynau eraill ym mharagraffau 4.14 a) i g), ond gall y gost fod yn ffactor perthnasol wrth wneud asesiad cyffredinol o les y cyhoedd.

  ii. Dylai achosion gael eu herlyn yn unol ag egwyddorion rheoli achosion effeithiol. Er enghraifft, mewn achos sy'n cynnwys nifer o bobl a ddrwgdybir, gallai'r broses erlyn gael ei chadw ar gyfer y prif gyfranogwyr er mwyn osgoi achosion eithriadol hir a chymhleth.

### g) A oes angen amddiffyn ffynonellau gwybodaeth?

- Mewn achosion lle nad yw imiwnedd lles y cyhoedd yn berthnasol, dylid fod yn ofalus iawn wrth fwrw ymlaen i erlyn lle gall fod angen cyhoeddi manylion a allai niweidio ffynonellau gwybodaeth, ymchwiliadau parhaus, cysylltiadau rhyngwladol neu ddiogelwch cenedlaethol. Mae'n hanfodol bod achosion o'r fath yn cael eu hadolygu yn barhaus.

# Y Prawf Trothwy

5.1. Mewn amgylchiadau cyfyngedig, lle nad yw'r Prawf Côd Llawn wedi'i gyflawni, gellir gweithredu'r Prawf Trothwy i gyhuddo rhywun a ddrwgdybir. Mae'n rhaid i ddifrifoldeb neu amgylchiadau'r achos gyfiawnhau gwneud penderfyniad cyhuddo ar unwaith, ac mae'n rhaid cael sail sylweddol i wrthwynebu mechnïaeth.

5.2. Rhaid cael archwiliad trwyadl o bump amod y Prawf Trothwy, i sicrhau ei fod ond yn cael ei weithredu pan mae'n angenrheidiol, ac nad yw'r achosion yn cael eu cyhuddo'n gynamserol. Mae'n rhaid bodloni’r pump amod cyn gellir gweithredu'r Prawf Trothwy. Os nad yw unrhyw rai o'r amodau wedi eu bodloni, nid oes angen ystyried unrhyw rai o'r amodau eraill, gan nad oes modd gweithredu'r Prawf Trothwy ac ni ellir cyhuddo'r un a ddrwgdybir.

### Yr amod cyntaf - Mae sail resymol dros ddrwgdybio bod y sawl sydd i gael ei gyhuddo wedi cyflawni'r drosedd

5.3. Mae'n rhaid i erlynwyr fod yn fodlon, wrth wneud asesiad gwrthrychol o'r dystiolaeth, bod sail resymol dros ddrwgdybio bod y sawl sydd i gael ei gyhuddo wedi cyflawni'r drosedd. Mae'n rhaid i'r asesiad ystyried effaith unrhyw amddiffyniad neu wybodaeth y mae'r un a ddrwgdybir wedi ei chyflwyno neu y gallai fod yn dibynnu arni.

5.4. Wrth benderfynu a oes sail resymol dros ddrwgdybio, mae'n rhaid i erlynwyr ystyried yr holl ddeunyddiau neu wybodaeth sydd ar gael, boed hynny mewn fformat tystiolaethol neu fel arall. Mae'n rhaid i erlynwyr fod yn fodlon bod y deunydd y mae'n rhaid dibynnu arno yn y cam hwn, yn:

- gallu cael ei roi mewn fformat derbyniol i'w gyflwyno yn y llys;
- dibynadwy; ac yn
- gredadwy.

### Yr ail amod - Gellir sicrhau tystiolaeth bellach i roi gobaith realistig o gael euogfarn

5.5. Mae'n rhaid i erlynwyr deimlo'n sicr bod sail resymol dros gredu y bydd yr ymchwiliad parhaus yn darparu rhagor o dystiolaeth, o fewn cyfnod rhesymol o amser, a phan fydd yr holl dystiolaeth yn cael ei ystyried gyda'i gilydd, gan gynnwys deunyddiau a allai pwyntio oddi wrth yn ogystal â thuag at un a ddrwgdybir, bydd yn gallu rhoi gobaith realistig o gael euogfarn yn unol â'r Prawf Côd Llawn.

5.6. Mae'n rhaid gallu adnabod y dystiolaeth bellach debygol, ac nid damcaniaethu yn ei chylch yn unig.

5.7. Wrth gyrraedd y penderfyniad hwn, mae'n rhaid i erlynwyr ystyried:

- natur, maint a pha mor dderbyniol yw unrhyw dystiolaeth bellach debygol, a'r effaith y bydd yn ei chael ar yr achos;
- y cyhuddiadau y bydd yr holl dystiolaeth yn eu cefnogi;
- y rhesymau pam nad yw'r dystiolaeth ar gael yn barod;
- yr amser sydd ei angen i sicrhau tystiolaeth bellach, gan gynnwys a ellid ei sicrhau o fewn unrhyw gyfnod cadw; ac

- a yw'r oedi wrth weithredu'r Prawf Côd Llawn yn rhesymol o dan yr amgylchiadau.

### Y trydydd amod - Mae difrifoldeb neu amgylchiadau'r achos yn cyfiawnhau gwneud penderfyniad cyhuddo ar unwaith

5.8. Dylid asesu difrifoldeb ac amgylchiadau'r achos mewn perthynas â'r troseddu honedig, a dylid ei gysylltu gyda lefel y risg a grëwyd drwy ganiatáu mechnïaeth.

### Y pedwerydd amod - Mae sail sylweddol barhaus dros wrthwynebu mechnïaeth yn unol â Deddf Mechnïaeth 1976 ac, ym mhob un o amgylchiadau'r achos, mae'n briodol gwneud hynny

5.9. Mae'n rhaid i'r penderfyniad hwn gael ei seilio ar asesiad risg go iawn, sy'n datgelu nad yw'r un a ddrwgdybir yn addas ar gyfer mechnïaeth, hyd yn oed gydag amodau sylweddol. Er enghraifft, rhywun peryglus a ddrwgdybir sy'n achosi risg difrifol o niwed i rywun penodol neu i'r cyhoedd, neu rywun a ddrwgdybir sy'n achosi risg difrifol o ddianc neu amharu â thystion. Ni ddylai erlynwyr dderbyn, heb ymholi gofalus, unrhyw honiad anghyfiawn neu honiad heb ei gefnogi am risg pe byddent yn cael eu rhyddhau ar fechnïaeth.

### Y pumed amod - Mae cyhuddo'r un a ddrwgdybir er lles y cyhoedd

5.10. Mae'n rhaid i erlynwyr weithredu cam lles y cyhoedd y Prawf Côd Llawn yn seiliedig ar yr wybodaeth a oedd ar gael ar y pryd.

## Adolygu'r Prawf Trothwy

5.11. Mae'n rhaid parhau i adolygu'r penderfyniad i gyhuddo o dan y Prawf Trothwy. Dylai'r erlynydd fod yn rhagweithiol i sicrhau gan yr heddlu y dystiolaeth neu ddeunydd arall a bennwyd sydd yn weddill yn unol ag amserlen y cytunwyd arni. Mae'n rhaid i'r dystiolaeth gael ei hasesu'n rheolaidd i sicrhau bod y cyhuddiad yn dal i fod yn briodol a bod y gwrthwynebiad parhaus i fechnïaeth wedi ei gyfiawnhau. Mae'n rhaid i'r Prawf Côd Llawn gael ei weithredu gynted ag y bydd y dystiolaeth neu ddeunydd pellach disgwyliedig wedi cyrraedd ac, mewn unrhyw achlysur, yn achosion Llys y Goron, cyn cyflwyno achos yr erlyniad yn ffurfiol.

## Dewis y Cyhuddiadau

6.1. Dylai erlynwyr ddewis cyhuddiadau sy'n:

- adlewyrchu difrifoldeb a maint y troseddu;
- rhoi pwerau digonol i'r llys ddedfrydu a gosod gorchmynion priodol wedi euogfarn;
- caniatáu i orchymyn atafaelu gael ei wneud mewn achosion priodol, lle mae diffynnydd wedi elwa o ymddygiad troseddol; a
- gwneud yn bosib i'r achos gael ei gyflwyno mewn ffordd glir a syml.

6.2. Mae hyn yn golygu na fydd erlynwyr efallai'n dewis neu’n parhau gyda'r cyhuddiad mwyaf difrifol bob amser lle mae dewis ar gael, a bod dewis y cyhuddiad llai difrifol yn bodloni budd cyfiawnder.

6.3. Ni ddylai erlynwyr barhau gyda mwy o gyhuddiadau nag sy'n angenrheidiol i annog diffynnydd i bledio'n euog i rai ohonynt. Yn yr un modd, ni ddylent byth symud ymlaen gyda chyhuddiad mwy difrifol er mwyn annog diffynnydd i bledio'n euog i gyhuddiad llai difrifol.

6.4. Ni ddylai erlynwyr newid y cyhuddiad oherwydd y penderfyniad a wneir gan y llys neu'r diffynnydd ynglŷn â lle y bydd yr achos yn cael ei glywed.

6.5. Mae'n rhaid i erlynwyr ystyried unrhyw newid perthnasol mewn amgylchiadau wrth i'r achos fynd rhagddo ar ôl cyhuddo.

# Datrys Achosion y tu allan i'r Llys

7.1. Gallai datrys achosion y tu allan i'r llys ddigwydd yn lle erlyniad os yw'n ymateb priodol i'r troseddwr a/neu ddifrifoldeb a chanlyniadau'r troseddu.

7.2. Mae'n rhaid i erlynwyr ddilyn unrhyw ganllawiau perthnasol pan ofynnir iddynt awdurdodi neu roi cyngor am ddatrys achosion y tu allan i'r llys, gan gynnwys unrhyw achosion rheoliadol priodol, cosb sifil neu gosbol, neu ffordd arall o ddatrys. Dylent sicrhau fod y safon dystiolaethol briodol ar gyfer datrys achos penodol y tu allan i'r llys wedi'i bodloni, gan gynnwys, lle bo angen, cyfaddefiad clir o euogrwydd, a'r ffaith y byddai datrys achos fel hyn yn ffordd briodol er lles y cyhoedd.

# Lleoliad y Llys

8.1. Mae'n rhaid i erlynwyr ystyried y canllawiau ar ddedfrydu a neilltuo wrth wneud cyflwyniadau i'r llys ynadon ynglŷn â lle y dylid rhoi'r diffynnydd ar dreial.

8.2. Rhaid peidio gofyn i achos aros yn y llys ynadon er mwyn cyflymu'r broses. Ond dylai erlynwyr ystyried effaith unrhyw oedi tebygol os anfonir achos i Lys y Goron, yn cynnwys yr effaith bosibl ar unrhyw ddioddefwr neu dyst.

8.3. Dylai erlynwyr gofio, os bydd angen achos atafaelu, mai dim ond yn Llys y Goron y gall hyn ddigwydd. Mae'n bosib cyflwyno achosion diannod i'r pwrpas hwnnw, lle bo'n briodol.

## Y lleoliad ar gyfer treialu achosion sy'n cynnwys plant a phobl ifanc

8.4. Mae'n rhaid i erlynwyr gofio y dylid treialu plant a phobl ifanc (iau nag 18 oed) yn y llys ieuenctid lle bynnag y bo modd. Dyna'r llys gorau i fodloni eu gofynion penodol nhw. Dylid cadw treial plentyn neu berson ifanc yn Llys y Goron ar gyfer yr achosion mwyaf difrifol neu lle mae buddiannau cyfiawnder yn mynnu bod plentyn neu berson ifanc yn cael ei dreialu ar y cyd gydag oedolyn.

# Derbyn Pleon Euog

9.1. Mae'n bosib y bydd diffynyddion eisiau pledio'n euog i rai o'r cyhuddiadau, ond nid i bob un ohonynt. Ar y llaw arall, efallai y byddent eisiau pledio'n euog i gyhuddiad gwahanol, sy'n llai difrifol o bosib, am eu bod yn cyfaddef i ran o'r drosedd yn unig.

9.2. Dylai erlynwyr dderbyn ple'r diffynnydd dim ond os:

- bydd y llys yn gallu bwrw dedfryd sy'n cyfateb i ddifrifoldeb y troseddu, yn enwedig lle mae ffactorau sy'n gwaethygu'r sefyllfa;
- bydd yn galluogi'r llys i wneud gorchymyn atafaelu mewn achosion priodol, lle mae diffynnydd wedi elwa o ymddygiad troseddol; a
- bydd yn rhoi pwerau digonol i’r llys osod gorchmynion atodol eraill, gan gofio bod modd gwneud y rhain gyda rhai troseddau ond nid gyda throseddau eraill.

9.3. Rhaid bod yn ofalus iawn wrth ystyried pleon a fyddai'n galluogi'r diffynnydd i osgoi cael y ddedfryd isaf orfodol.

9.4. Ni chaiff erlynwyr byth dderbyn ple o euogrwydd am fod hynny'n gyfleus.

9.5. Wrth ystyried a yw'r pleon a gynigir yn dderbyniol, dylai erlynwyr sicrhau bod buddiannau a, lle bo'n bosibl, barn y dioddefwr, neu mewn achosion priodol, barn teulu'r dioddefwr, wedi cael eu hystyried wrth benderfynu a yw derbyn y ple er lles y cyhoedd. Fodd bynnag, yr erlynydd fydd yn penderfynu.

9.6. Rhaid dangos yn glir i'r llys ar ba sail y cynigiwyd ac y derbyniwyd unrhyw ble. Mewn achosion lle mae diffynnydd yn pledio'n euog i'r cyhuddiadau, ond ar sail y ffeithiau sy'n wahanol i achos yr erlyniad, a lle gallai hyn effeithio'n sylweddol ar y ddedfryd, dylid gwahodd y llys i glywed tystiolaeth i benderfynu beth ddigwyddodd, ac yna i ddedfrydu ar y sail honno.

9.7. Lle mae diffynnydd wedi dangos o'r blaen y bydd ef neu hi'n gofyn i'r llys gymryd trosedd i ystyriaeth wrth ddedfrydu, ond yna’n gwrthod cyfaddef i'r drosedd honno yn y llys, bydd erlynwyr yn ystyried a oes angen erlyn y drosedd honno. Dylai erlynwyr esbonio wrth adfocad yr amddiffyniad a'r llys bod modd adolygu proses erlyn y drosedd honno eto, mewn ymgynghoriad â'r heddlu neu ymchwilwyr eraill lle bynnag y bo modd.

## Ailystyried Penderfyniad i Erlyn

10.1. Dylai pobl allu dibynnu ar benderfyniadau a wneir gan y CPS. Fel arfer, os bydd y CPS yn dweud wrth un a ddrwgdybir neu ddiffynnydd na fydd erlyniad, neu fod yr erlyniad wedi ei derfynu, ni fydd yr achos yn cychwyn eto. Ond o bryd i'w gilydd, mae achosion yn Côdi lle bydd y CPS yn gwyrdroi penderfyniad i beidio ag erlyn neu i ddelio gyda'r achos drwy ddatrys achos y tu allan i'r llys neu pan fydd yn ailgychwyn yr erlyniad, yn enwedig os yw'r achos yn ddifrifol.

10.2. Mae'r achosion hyn yn cynnwys:

- achosion lle mae adolygiad pellach o'r penderfyniad gwreiddiol yn dangos ei fod yn anghywir ac, er mwyn cynnal hyder pobl yn y system cyfiawnder troseddol, dylid erlyn er gwaethaf y penderfyniad cynharach;
- achosion sy'n cael eu terfynu fel bod modd casglu a pharatoi tystiolaeth bellach ddisgwyliedig, sy'n debygol o ddod ar gael yn weddol fuan. Yn yr achosion hyn, bydd yr erlynydd yn dweud wrth y diffynnydd ei bod hi'n bosibl iawn y gallai'r erlyniad gychwyn eto;
- achosion nad ydynt wedi cael eu herlyn neu sydd wedi cael eu terfynu oherwydd diffyg tystiolaeth ond lle mae rhagor o dystiolaeth arwyddocaol yn dod i'r fei yn nes ymlaen; ac
- achosion yn ymwneud â marwolaeth lle mae adolygiad sy'n dilyn canfyddiadau cwest yn dod i'r casgliad y dylid erlyn, er gwaethaf unrhyw benderfyniad cynharach i beidio ag erlyn.

10.3. Gallai dioddefwr ofyn am adolygiad o rai o benderfyniadau'r CPS i beidio â chychwyn erlyn neu i derfynu erlyniad, o dan y cynllun Hawl y Dioddefwr i Adolygiad.

## Fformatau eraill

Bydd y cyhoeddiad hwn ar gael yn Saesneg ac ar ffurf fersiwn hawdd ei deall yn www.cps.gov.uk. I gael gwybodaeth am gael cyhoeddiad CPS mewn fformat arall, cysylltwch â:

enquiries@cps.gov.uk

## Ynglŷn â Gwasanaeth Erlyn y Goron

Mae'r CPS yn gyfrifol am erlyn y mwyafrif o achosion a wrandewir yn y llysoedd barn yng Nghymru a Lloegr. Arweinir y CPS gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus ac mae'n gweithredu'n annibynnol ar achosion troseddol a ymchwilir gan yr heddlu a sefydliadau eraill. Mae'r CPS yn gyfrifol am benderfynu ynghylch y cyhuddiadau priodol mewn achosion mwy difrifol neu gymhleth ac am ddarparu gwybodaeth, cymorth a chefnogaeth i ddioddefwyr a thystion.

cps.gov.uk

@cpsuk

Y Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron

8fed Argraffiad, Hydref 2018

© Hawlfraint y Goron